Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Bwletin GwE

## CYNHADLEDD FLYNYDDOL GENEDLAETHOL

### CENHADAETH EIN CENEDL:
### DATHLU CYNNYDD, CRYFHAU GALLU A GWEITHIO AR Y CYD AR BOB LEFEL

**DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2019 VENUE CYMRU, LLANDUDNO**

COFRESTRWCH YMA

## Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [https://g6.gwegogledd.cymru].

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.**

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

***Gall y dyddiadau / lleoliadau newid. Gwiriwch G6 am y wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi fynychu unrhyw ddigwyddiad.***

| HYFFORDDIANT | DYDDIAD | LLEOLIAD | CYFRWNG |
|---|---|---|---|
| IZak9: Cydweithio gyda grwpiau o ddysgwyr sy'n tangyflawni mewn mathemateg, trwy ddefnyddio IZak9 | 23/10/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Iechyd a Lles; Cadw'n dysgwyr a'n staff yn saff rhag peryglon y byd digidol [OpTIC, Llanelwy] | 23/10/2019 | OpTIC, Llanelwy | Dwyieithog |
| Gwella effaith ymyrraeth Llythrennedd - Addas ar gyfer : Cymorthyddion dysgu / Athrawon â chyfrifoldeb dros ddarparu ymyrraeth Llythrennedd i ddysgwyr CA3 | 23/10/2019 | Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Cyfarfod Tymor yr Hydref Rhwydwaith Arweinwyr Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd | 24/10/2019 | Canolfan Fusnes Conwy | Dwyieithog |
| **TACHWEDD** | | | |
| Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd [CYNRADD] - Yr Wyddgrug | 06/11/2019 | Parc Gwledig Loggerheads | Dwyieithog |
| Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma [Caernarfon] | 06/11/2019 | Y Galeri, Caernarfon | Saesneg |
| Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd [Yr Wyddgrug] | 06/11/2019 | Parc Gwledig Loggerheads | Dwyieithog |
| Rhaglen Cymorthyddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan A - GRŴP SAESNEG - Beaufort Park Hotel) | 07/11/2019 | Beaufort Park, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Rhaglen Cymorthyddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan A - GRŴP CYMRAEG - Beaufort Park Hotel) | 07/11/2019 | Beaufort Park, Yr Wyddgrug | Cymraeg |
| Ysgrifennu MAT: Siarad & Ysgrifennu'n Effeithiol yn CA2 | 08/11/2019 | Venue Cymru, Llandudno | Dwyieithog |
| Datblygu'r Arfer Orau wrth Addysgu Saesneg | 08/11/2019 | Canolfan Fusnes Conwy | Saesneg |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Ffiseg Tymor yr Hydref Gwynedd a Môn | 12/11/2019 | Prifysgol Bangor, Safle'r Normal, Adeilad Trefnai | Dwyieithog |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Bioleg Tymor yr Hydref Fflint a Wrecsam | 12/11/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Cemeg Tymor yr Hydref Conwy a Dinbych | 12/11/2019 | Canolfan Fusnes Conwy | Dwyieithog |
| Rhaglen Genedlaethol Ysgolion sy'n Meithrin | 12/11/2019 | Porth Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Mathemateg MAT [cyfrwng Saesneg] | 12/11/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd [CYNRADD] - Bae Colwyn | 13/11/2019 | Porth Eirias, Bae Colwyn | Dwyieithog |
| Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd [Bae Colwyn] | 13/11/2019 | Porth Eirias, Bae Colwyn | Dwyieithog |
| Mathemateg MAT [cyfrwng Cymraeg] | 14/11/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Cymraeg |
| Rhaglen Cymorthyddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan B - GRŴP CYMRAEG - Plas Menai) | 14/11/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| Iechyd a Lles; Cadw'n dysgwyr a'n staff yn saff rhag peryglon y byd digidol [Glasdir, Llanrwst] | 18/11/2019 | Glasdir, Llanrwst | Dwyieithog |
| Rhaglen Cymorthyddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan C - GRŴP SAESNEG - OpTic) | 19/11/2019 | OpTIC, Llanelwy | Saesneg |
| Rhaglen Cymorthyddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan C - GRŴP CYMRAEG - OpTic) | 19/11/2019 | OpTIC, Llanelwy | Cymraeg |
| Iechyd a Lles; Cadw'n dysgwyr a'n staff yn saff rhag peryglon y byd digidol [Beaufort Park, Yr Wyddgrug] | 19/11/2019 | Beaufort Park, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Ffiseg Tymor yr Hydref Fflint a Wrecsam | 20/11/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd [CYNRADD] - Caernarfon | 20/11/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Dwyieithog |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Bioleg Tymor yr Hydref Conwy a Dinbych | 20/11/2019 | Canolfan Fusnes Conwy | Dwyieithog |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Cemeg Tymor yr Hydref Gwynedd a Môn | 20/11/2019 | Prifysgol Bangor, Safle Normal, Adeilad Trefnai | Dwyieithog |
| Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd [Caernarfon] | 20/11/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Dwyieithog |
| Rhaglen Cymorthyddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan - CYMRAEG - Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin) | 21/11/2019 | Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin, Dolgellau | Cymraeg |
| Cyfarfod Rhanbarthol ar gyfer Cydlynwyr Rhifedd | 26/11/2019 | Glasdir, Llanrwst | Dwyieithog |
| Cyfarfod Saesneg Lefel A Wrecsam a Fflint - Tymor yr Hydref | 26/11/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Cyfarfod Saesneg Lefel A Conwy / Dinbych / Môn / Gwynedd - Tymor yr Hydref | 27/11/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Bioleg Tymor yr Hydref Gwynedd a Môn | 28/11/2019 | Prifysgol Bangor, Safle Normal, Adeilad Trefnai | Dwyieithog |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Cemeg Tymor yr Hydref Fflint a Wrecsam | 28/11/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Cyfarfodydd Rhwydwaith Ffiseg Tymor yr Hydref Conwy a Dinbych | 28/11/2019 | Porth Eirias, Bae Colwyn | Dwyieithog |
| Rhaglen Cymorthyddion Dysgu wrth eu Gwaith (Carfan - CYMRAEG - Clwb Golff Nefyn) | 28/11/2019 | Clwb Golff Nefyn, Pwllheli | Cymraeg |
| **RHAGFYR** | | | |
| Sesiwn galw i mewn [Bae Colwyn]: Offeryn Datblygu ar-lein i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd | 03/12/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Dwyieithog |
| Sesiwn galw i mewn [Yr Wyddgrug]: Offeryn Datblygu ar-lein i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd | 04/12/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Hyfforddiant Emosiwn ar gyfer Ysgolion | 05/12/2019 | Porth Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Sesiwn galw i mewn [Caernarfon]: Offeryn Datblygu ar-lein i Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd | 05/12/2019 | GwE, Penrallt, Caernarfon | Dwyieithog |

# Grantiau Llywodraeth Cymru

Mae gwybodaeth am grantiau Llywodraeth Cymru 2019/20, h.y. y Grant Gwella Addysg, y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Dysgu Proffesiynol, ar gael ar G6. Mae manylion am sut i gael hyd i'r wybodaeth ar gael wrth ddilyn y **ddolen hon**.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn trafod â chi eich defnydd o'r grantiau am y flwyddyn. Rydym yn gofyn am i gynlluniau pob ysgol fod wedi'u huwchlwytho i'r ffeil berthnasol ar G6 erbyn **8 Tachwedd, 2019**.

# Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon



## Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

**NODYN ATGOFFA:** Mae enwebiadau ar gyfer Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2020 **ar agor**. Roeddem yn falch iawn o weld cymaint o gystadleuwyr yn y rownd derfynol, ac enillwyr o ysgolion ledled y rhanbarth yn cael eu cynrychioli yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru eleni. Cofiwch enwebu eich staff eto eleni.

**Dyddiadau allweddol:**

| | |
|---|---|
| **1 Hydref 2019:** | Dechrau'r cyfnod enwebu |
| **22 Tachwedd 2019:** | Diwedd y cyfnod enwebu |
| **Ebrill 2020** | Cyhoeddi'r rhestr fer |
| **17 Mai 2020** | Y Seremoni Wobrwyo |

Rhagor o fanylion ar gael **yma**.

**YDYCH CHI'N ADNABOD ATHRO ANHYGOEL?**

## CYMWYSTERAU CYMRU

### HOFFAI CYMWYSTERAU CYMRU SIARAD AG ATHRAWON AM ASESIAD DI-ARHOLIAD [NEA] AR GYFER TGAU

Mae Cymwysterau Cymru yn gwahodd athrawon y pynciau TGAU canlynol i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp bach am eu canfyddiadau a'u profiadau o ddarparu ac asesu asesiadau di-arholiad (NEA):

1. Dylunio a Thechnoleg
2. Bwyd a Maeth
3. Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg
4. Hanes
5. Astudio'r Cyfryngau
6. Cerddoriaeth
7. Cymraeg Ail Iaith

Bydd Cymwysterau Cymru yn hwyluso trafodaethau yn ymwneud â'r pynciau penodol mewn pum lleoliad ar draws Cymru rhwng Tachwedd 2019 ac Ionawr 2020. Os ydych yn addysgu manyleb TGAU CBAC un o'r pynciau yma mewn ysgol uwchradd a gynhelir, coleg addysg bellach (AB), Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) neu ysgol annibynnol yng Nghymru, byddai Cymwysterau Cymru yn falch iawn o glywed eich barn. Mae rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru ar gyfer mynychu grŵp ffocws ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru **yma**.

## YMGYNGHORIAD

### MYNEDIAD I GWRICWLWM LLAWN, ADDYSG GREFYDDOL AC ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Dydd Iau, 3 Hydref 2019 fe lansiwyd Ymgynghoriad – Mynediad i gwricwlwm llawn, Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gan Lywodraeth Cymru.
Gweler ei **dogfen briffio i randdeiliaid** am ragor o fanylion.
Daw'r ymgynghoriad i ben ar **28 Tachwedd 2019.**
Dilynwch y **ddolen hon** i'r ymgynghoriad.

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES

## DISGYBLION MWY ABL A THALENTOG YNG NGHYMRU

Pa ddarpariaeth sydd gennych ar waith ar gyfer eich disgyblion mwy abl a thalentog?
Mae'r **ddogfen hon** yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i helpu ysgolion i fyfyrio ar y ddarpariaeth bresennol wrth i ni baratoi i symud at gwricwlwm newydd.
Dyma'r ail o gyfres o ddogfennau canllaw i'ch cefnogi.

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

## Y Gymraeg



### Cwrs Sabothol y Gymraeg [Lefel Sylfaen]

**DYDDIAD CAU ANFON CEISIADAU: 1 TACHWEDD 2019**

Cwrs ar gyfer athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sydd â gafael ar y Gymraeg, sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith, ac yn medru defnyddio'r iaith i gyfarch, ond sydd eisiau magu hyder i gyflwyno'r Gymraeg i'r plant a datblygu adnoddau Cymraeg i'r ysgol.
**Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth.

### Newyddion Dysgu Cymraeg gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

**Cliciwch yma** i weld newyddion diweddaraf Dysgu Cymraeg gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

# Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

***Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:***

### HYFFORDDIANT PORI DRWY STORI MEITHRIN A DERBYN WRECSAM

**DYDD MERCHER, 6 TACHWEDD 2019 – 15:45 – 17:30**
**YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENYGELLI**



Hyfforddiant Pori Drwy Stori Meithrin a Derbyn [Cyfrwng Saesneg] - **RHAD AC AM DDIM**
Addas ar gyfer ymarferwyr sydd yn gweithio gyda phlant Meithrin a Derbyn mewn ysgolion a lleoliadau. **COFRESTRWCH YMA**.

# BORE AGORED YSGOL EIRIOLWYR NUMICON

**DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019 – 9:30AM – 11:30AM**

Dewch draw i fore agored Ysgol Eiriolwyr Numicon, i weld holl ddulliau llwyddiannus ysgol-gyfan Numicon ar waith.
**LLEOLIAD:** Ysgol Tŷ Ffynnon, King George Street, Shotton, Glannau Dyfrdwy, CH5 1HX
Archebwch eich lle **yma**.
Rhagor o fanylion ar gael **yma** [poster Saesneg yn unig].

# 'Y TU HWNT I SEREN'

## Cyfleoedd Gyrfaol a Chyflogaeth i Raddedigion

**DYDD IAU, 21 TACHWEDD 2019 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO – 13:30 – 16:30**

Crëwyd Rhwydwaith Seren gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan fyfyrwyr rhwng 13 a 19 oed sy'n perfformio orau yng Nghymru yr hawl i dderbyn y gefnogaeth gywir i wneud yn fawr o'u doniau academaidd.
Pwrpas y digwyddiad hwn yw rhoi gwybod i fyfyrwyr Bl11 i Bl13 SEREN, a'u rhieni/gofalwyr, am y cyfleoedd a'r gyrfaoedd sydd ar gael ar ôl y Brifysgol, gyda ffocws arbennig ar Ogledd Cymru a phwerdy Gogledd Lloegr.
**Cliciwch yma** am ragor o fanylion.
I gofrestru, cysylltwch â elfedmorris@gwynedd.llyw.cymru

# BUDDSODDWYR MEWN TEULUOEDD

**DYDD GWENER, 22 TACHWEDD 2019 – THE VILLAGE HOTEL, EWLOE**

Hoffai Buddsoddwyr mewn Teuluoedd eich gwahodd i'w Seminar yng Ngogledd Cymru. Rhoddir lle yn rhad ac am ddim yn y seminar i bob ysgol sydd wedi cofrestru efo Buddsoddwyr mewn Teuluoedd. Bydd cost o **£95**, yn cynnwys cinio, i ysgolion nad ydynt wedi cofrestru. Cofrestrwch **yma**.
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â kate@waterman.education

# CYNHADLEDD RHYNGWLADOLI ADDYSG

**DYDD IAU, 7 TACHWEDD 2019 – NEUADD Y DDINAS, CAERDYDD**

Yn y gynhadledd, rhennir yr arferion da a gasglwyd wrth weithio gyda phartneriaid o wledydd partner ledled y byd, yn gwella addysg i ddysgwyr ifanc.
**Cliciwch yma** i gofrestru.

Am unrhyw wybodaeth, cysylltwch ag Emily Daly
emily.daly@internationallinks.co.uk neu Ruben Chapela-Orri
Ruben.Chapela-Orri@cardiff.gov.uk

# CANOLFAN RHAGORIAETH OLEVI

## BORE AGORED

## DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019 – 09:30-12:00

## YSGOL Y CREUDDYN

**Gwahoddiad agored i ddarganfod mwy am OLEVI, y Rhaglenni Hyfforddiant Dysgu ac Addysgu ac Arweinyddiaeth.**

**Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu, anfonwch e-bost at olevi@creuddyn.conwy.sch.uk**

# *The Great Science Share for Schools*

## DYDD MERCHER, 27 TACHWEDD 2019 – OpTIC, LLANELWY 15:45 – 17:00

Mae'r ***Great Science Share for Schools*** yn dod i Gymru. Dan arweiniad Dr Lynne Bianchi, byddwn yn trafod pwysigrwydd y ***Great Science Share for Schools*** a sut y gallwn ddatblygu'r ymgyrch ymhellach yng Nghymru.
Os hoffech chi, neu athrawon eraill / uwch arweinwyr ddod, byddai'n ddoeth i chi gofrestru **yma** cyn gynted â phosibl.

Hoffem gyrraedd mwy o bobl yng Nghymru eleni, felly mae croeso i chi anfon y gwahoddiad at unrhyw gydweithwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r ***Great Science Share for Schools***. Efallai bydd ganddynt hwythau ddiddordeb mewn cymryd rhan, a sut y gallwn ddatblygu'r ymgyrch fwyfwy yng Nghymru i annog disgyblion i ddathlu a rhannu eu gwaith gwyddoniaeth.



# Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Hoffai Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig wahodd eich ysgol i gymryd rhan yn y fenter yn 2020 [unrhyw waith a gyflawnir rhwng Ebrill 2019 ac Ebrill 2020], drwy gyflwyno prosiect treftadaeth i'r gystadleuaeth yng Nghymru.

Y mae dewis eang ac amrywiol i ysgolion wrth benderfynu ar brosiect. Sut bynnag, byddem yn croesawu rhagor o brosiectau yn ymwneud â threftadaeth gwyddoniaeth, technoleg, diwydiant, cyllid, masnach a chwaraeon a rôl menywod mewn hanes.

Mae dwy wobr arbennig am brosiectau digidol eithriadol dda; un cynradd ac un uwchradd. Edrychant ymlaen at dderbyn eich cais, ac maent yn gobeithio gweld eich ysgol yn cael ei chynrychioli yn y Seremoni Wobrwyo ym mis Gorffennaf 2020.

Rhagor o fanylion ar gael **yma**.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

# Newyddion i ysgolion uwchradd

## Y 100 llyfr gorau yn ôl Canllaw Llyfrau Gwych BookTrust

Yn y Canllaw, cewch wybod am straeon gwych i'w darllen a'u rhannu, syniadau ar sut i gael yr ysgol gyfan i fynd ati i ddarllen, a hanesion saith arwres sydd â dawn anhygoel.

## Porwch drwy'r llyfrau newydd yn ein Canllaw.

Yng Nghanllaw Llyfrau Gwych BookTrust, enwir 100 o lyfrau yn 2019 a fydd wrth fodd plant. Darllenwch y Canllaw **yma**.

## Pum ffordd i gael yr ysgol gyfan i ddarllen efo'r Pecyn Llyfrgell Ysgol

Mae llyfrgellwyr ac athrawon yn rhannu sut aethant ati i ddefnyddio Pecyn Llyfrgell Ysgol BookTrust i annog yr ysgol gyfan i ddarllen yn frwd. Cewch wybod mwy **yma**.

BookTrust
Getting children reading

## Saith arwres sydd â dawn anhygoel

Mae awdur cyfres *Kitty,* Paula Harrison, yn rhannu ei hoff arwresau sydd â doniau rhyfeddol. Cewch wybod mwy **yma**.

## Gostyngiad o 20% oddi ar deitlau *BookTrust Represents*

Chwilotwch drwy'r llyfrau y mae'r prosiect yn eu hyrwyddo. Cewch ostyngiad o 20% oddi ar becyn o lyfrau gan awduron *BookTrust Represents* efo'r Llyfrgell Blwch Llythyrau. Cewch wybod mwy **drwy glicio yma**.

## Cynnal Ffair 'Dolig eleni?

Gall y Nadolig fod yn gyfnod anodd i blant bregus, neu blant sy'n derbyn gofal. Beth am roi rhodd o lyfr i godi eu calon? Cewch wybod mwy **yma**.



**Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**

**GwEGogledd.Cymru**

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n **gwefan**

Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**

**Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.**

Cyngor Gwynedd Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam